



Swyddog Cyflogres

Gwasanaethau Pobl – Adnoddau Dynol

Gradd 7 £25,878 - £26,845 per annum

Parhaol – 37 awr yr wythnos

Rhif y Swydd: NU078

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yw un o Wasanaethau Tân ac Achub mwyaf blaenllaw yn y DU a'r mwyaf o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru. Mae ardal ein Gwasanaeth yn ymestyn o Gas-gwent yn y Dwyrain i Bort Talbot yn y Gorllewin ac o arfordir y De i Fannau Brycheiniog yn y Gogledd. Rydym yn gweithredu o 49 o orsafoedd tân ar draws ardal y Gwasanaeth ac mae ein Pencadlys, lle lleolir y swydd hon, yn Llantrisant.

Ai chi yw hwn?

Rydym yn chwilio am berson proffesiynol, brwdfrydig a threfnus i weithio o fewn ein Tîm Cyflogres a Phensiynau prysur. Mae'r Swyddog Cyflogres yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth cyflogres effeithiol i'r holl staff ar draws Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn unigolyn profiadol i ddod yn aelod allweddol o dîm cyflogres, sy'n ymroddedig i gywirdeb ac effeithlonrwydd, gan sicrhau bod yr holl derfynau amser yn cael eu bodloni mewn modd amserol, wrth gadw at yr holl reoliadau statudol. O'ch rhan chi, byddwch yn gallu rhannu eich profiad a'ch gwybodaeth, dysgu llawer, gweithio gyda phobl wych a chael cyfleoedd gwych i gymryd rhan mewn syniadau newydd.

Sut alla i wneud gwahaniaeth?

Cynorthwyo Rheolwr y Gyflogres i ddarparu gwasanaeth cyflogres proffesiynol i holl weithwyr a rheolwyr Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Byddwch chi'n gyfrifol am brosesu ac adolygu cofnodion cyflogres gweithwyr, gan sicrhau bod yr holl daliadau a didyniadau'n gywir a chodi, gyda'r Rheolwr Cyflogres/Rheolwr Cyflogres Cynorthwyol, unrhyw faterion a nodir, er mwyn gallu eu cywiro.

Mae'r tasgau'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i brosesu tafenni amser, defnyddio cronfeydd data Excel, newidiadau contract (gwirio dechreuwyr, ymadawyr a newidiadau i gontractau), gwirio absenoldeb (mamolaeth a salwch), gwirio cywirdeb cyfraniadau pensiwn gweithwyr, gwirio hawliadau treuliau electronig, ateb ac ymdrin ag ymholiadau gan weithwyr, cydweithwyr ac asiantaethau allanol.

Bydd cyfathrebu'n allweddol yn y rôl hon gan ein bod yn ymfalchïo mewn darparu gwasanaeth proffesiynol ac effeithiol i'n holl gwsmeriaid, felly bydd disgwyl i chi ymateb mewn modd cyfeillgar ac amserol i ymholiadau cyflogres gan staff, yr adran ehangach a rhanddeiliaid eraill. Byddwch yn cyfrannu at dîm sydd wedi ymrwymo i welliant parhaus ac yn helpu i nodi, archwilio a gweithredu cyfleoedd ar gyfer gwell effeithlonrwydd

Ar gyfer y rôl hon bydd gan "**wneuthurwr gwahaniaeth**" brofiad diweddar o weithio mewn tîm cyflogres, y gallu i gofnodi a phrosesu data'n gywir gan ddefnyddio systemau amrywiol, dull trefnus o drin data o ffynonellau amrywiol, rhifedd rhagorol sgil, gwybodaeth a phrofiad o weithio gydag Excel, Word ac Outlook. Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol, ond nid yn hanfodol.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn amodol ar wiriad sylfaenol boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a bydd yn ofynnol iddo ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol, cyn penodi.

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau ychwanegol, fe'ch gwahoddir i gysylltu â'r Rheolwr Llinell, Clare Smith ar e-bost: c-smith@decymru-tan.gov.uk neu ffoniwch 01443 232626.

Dylid llenwi Ffurflenni Cais ar-lein trwy ein system e-creiwio, y gellir ei chyrchu trwy ein gwefan: <https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-gyda-ni/swyddi-diweddaraf/>

Os oes angen fersiwn papur, e-bostiwch: personel@decymru-tan.gov.uk

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw: **02/12/2022 12:00 ganol dydd.**

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac rydym yn croesawu cyfathrebu yn y ddwy iaith. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddo yn y cam Llunio Rhestr Fer yn cael cyfle i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweiliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau llafar a chwestiynau cyfweiliad). Bydd y trefniadau'n cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweiliad a gellir darparu gwasanaeth Cyfieithu a/neu Gyfieithu ar y Pryd.

Mae GTADC yn credu fod gwir werth mewn cael gweithlu amrywiol ac rydym am fod yn rhagweithiol wrth annog ymgeiswyr o bob sector o'n cymuned i ymgeisio.